

Cofnodion Drafft Cyfarfod Arbenig Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Fercher Ionawr 29 2025, cyfarfod Hybrid am 6.30yh.

Presennol: Cynghorwyr Pauline Edwards, Alyn Ashworth, Gaynor Wood-Tickle. Roy Tickle, Gaynor Morgan-Rees, Sylvia Jennings, Andrew Hine, Sioned Garrod, Matthew Jones & Robert Davies; Jenny Barlow (Clerc Y Dref) Jo Davies (Cynorthwy-ydd) – Wyneb yn wyneb.
Cynghorydd Phillip Stevens – Zoom.

Ymddiheuriadau: Cyng Jan Tomlinson.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Faer Pauline Edwards yn absenoldeb y Maer Jan Tomlinson. Croesawodd y Cyng Edwards bawb i Gyfarfod Arbennig y Cyngor Cyllideb ym mis Ionawr.

131 Datganiad Diddordeb Personol:

Cynghorydd	Eitem	
Roy Tickle	3 – Cyllideb neuadd y dref	Rhagfarnllyd
Gaynor Wood Tickle	3 – Cyllideb neuadd y dref	Rhagfarnllyd

132 I drafod a pharatoi cyllideb gwario'r cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/2026 yn dilyn cyflwyniad gan Clerc y Dref.

Cyflwynodd Clerc y Dref adroddiadau ariannol i'r Cynghorwyr Tref yn ymwneud â'r gyllideb gyfredol, gwariant cyfredol yn ogystal â thaliadau posibl i'w gwneud hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Cafwyd cyflwyniad gan Clerc y Dref yn manylu ar bob pwnc ariannol o fewn gwariant blyneddol y Cyngor Tref.

Roedd hyn yn cynnwys edrych ar y cyllid yn fanwl i sicrhau bod yr holl wariant yn cael ei gynnwys.

Cadarnhaodd y Clerc mai cyllideb 2025/2026 fyddai £365,950.00

Caniaaodd y Clerc amser i'r Cynghorwyr dreulio'r wybodaeth a ddarparwyd ac yna gweithredodd sesiwn cwestiwn ac ateb.

Atebwyd y cwestiynau i gyd a chytunwyd a derbyniwyd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod.

133 I drafod a gosod ffigwr archebiant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/2026

133.1 Rhoddodd y clerch wybodaeth am y symiau sydd eu hangen i dalu am y gwariant am y flwyddyn i ddod.

133.2 Cynigiodd y Cyng Philip Stevens fod y praesept yn parhau ar £66.00 yr aelwyd y flwyddyn (Band D), cafodd hyn ei eilio gan y Cyng Gaynor Morgan-Rees. Dim pleidleisiau eraill dros y cynnig hwn.

133.3 Gwnaethpwyd gwrthgynnig gan y Cyng Roy Tickle y dylid cynyddu'r praesept i £70.00 fesul cartref y flwyddyn (Band D). Eiliwyd hyn gan y Cyng Andrew Hine a chafodd 6 Pleidlais eu cyfrif ar gyfer y cynnig hwn.

133.4 Gwnaed 3ydd cynnig gan y Cyng Alyn Ashworth y dylid cynyddu'r praesept i £71.00 fesul cartref y flwyddyn (Band D). Eiliwyd hyn gan y Cyng Sylvia Jennings a chafodd 3 Pleidlais eu cyfrif i'r cynnig hwn.

133.5 Trafodwyd hyn gan y cynghorwyr a chytunwyd ar swm praesept o £70 fesul cartref (band D).

Byddai hyn yn rhoi ffigwr praesept o £261,240.00 yn ogystal â defnyddio £81,210 o'r cronfeydd wrth gefn.

Cytunodd y cynghorwyr ar y ffigwr gwariant a'r ffigurau praesept

Caeodd y cadeirydd y cyfarfod am 19.35.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad.....